

# Public Document Pack

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.  
Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.



Annwyl Cyngorydd,

### **IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (A)**

Cynhelir Cyfarfod Is-Bwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 (A) Hybrid yn Siambraeth y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd Yr Angel, Penybont Ar Ogwr CF31 4WB ar **Dydd Mercher, 29 Mawrth 2023 am 14:00**.

### **AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb  
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.
2. Datganiadau o fuddiant  
Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2014.
3. Cymeradwyaeth Cofnodion 3 - 14  
I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod yr Is-Bwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 (A) ar 18 Mawrth 2022.
4. Deddf Trwyddedu 2003 - Cais i Amrywio Trwydded Safle o dan Adran 34 15 - 42

Nodyn: Bydd hwn yn gyfarfod Hybrid a bydd Aelodau a Swyddogion mynchy trwy Siambraeth y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr / o bell Trwy Timau Microsoft. Bydd y cyfarfod cael ei recordio i'w drosglwyddo drwy wefan y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet\_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643147 / 643148.

Yn ddiffuant  
**K Watson**

Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

Ffôn/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: [talktous@bridgend.gov.uk](mailto:talktous@bridgend.gov.uk)

Negeseon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

[Twitter@bridgendCBC](http://Twitter@bridgendCBC)

Gwefan/Website: [www.bridgend.gov.uk](http://www.bridgend.gov.uk)

Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

**Dosbarthiad:**

Cynghorwyr  
S J Bletsoe

Cynghorwyr  
M Lewis

Cynghorwyr  
J E Pratt

# Agenda Item 3

IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (A) - DYDD GWENER, 18 MAWRTH 2022

COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (A) A  
GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL,  
PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD GWENER, 18 MAWRTH 2022, AM 10:00

## Presennol

Y Cyngorydd DRW Lewis – Cadeirydd

TH Beedle

AA Pucella

### Swyddogion:

Julie Ellams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Mark Galvin	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Charles Holland	Counsel
Michael Pitman	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau
Andrew Rees	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Yvonne Witchell	Rheolydd Tîm Trwyddedu

### 21. DATGANIADAU BUDDIANT

Dim.

### 22. DEDDF TRWYDDEDU 2003 CAIS I AMRYWIO TRWYDDED MANGRE O DANADRAN 34

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a gwnaeth pawb a oedd yn bresennol gyflwyno eu hunain. Yna gofynnodd i Reolwr y Tîm – Trwyddedu amlinellu'r adroddiad.

Cynghorodd Rheolwr y Tîm – Trwyddedu mai pwrrpas yr adroddiad oedd penderfynu ar gais a dderbyniwyd gan Upperbay Ltd i amrywio'r drwydded Mangre sydd mewn grym ym Mharc Hamdden Bae Trecco Porthcawl.

Cyflwynodd hi'r adroddiad drwy esbonio bod y fangre yn elwa ar drwydded mangre BCBCLP535, sy'n awdurdodi'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol sy'n gysylltiedig â'r cais dan ystyriaeth:

- Cyflenwi alcohol
- Dramâu
- Ffilmiau
- Digwyddiadau Chwaraeon Dan Do
- Bocsio neu Reslo
- Cerddoriaeth Fyw
- Cerddoriaeth wedi'i Recordio
- Darparu lluniaeth yn hwyr y nos

Yr oriau a ganiateir ar hyn o bryd ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy sy'n berthnasol i'r cais hwn oedd:

Darparu Adloniant a Reoleiddir (Cerddoriaeth Fyw ac wedi'i Recordio). Ar hyn o bryd mae Cerddoriaeth Fyw a Cherddoriaeth wedi'i Recordio wedi'u hawdurdodi dan do ac yn yr awyr agored:

Oriau Safonol ar gyfer Cerddoriaeth Fyw:

Dydd Llun i Ddydd Sul: 1000 - 0200  
Ardal Awyr Agored yn unig:  
Dydd Llun i Ddydd Sul: 1000 - 2300

Amseroedd Ansafonol ar gyfer Cerddoriaeth Fyw:

Nos Galan o ddiwedd yr oriau a ganiateir ar Nos Galan hyd ddechrau'r oriau a ganiateir ar Ddydd Calan.

Awr ychwanegol i'r amseroedd safonol ac ansafonol ar y diwrnod pan fydd Amser Haf Prydeinig yn cychwyn.

Oriau Safonol ar gyfer Cerddoriaeth wedi'i Recordio:

Dydd Llun i Ddydd Sul: 1000 - 0200  
Ardal Awyr Agored yn unig:  
Dydd Llun i Ddydd Sul: 1000 - 2300

Amseroedd Ansafonol ar gyfer Cerddoriaeth wedi'i Recordio:

Nos Galan o ddiwedd yr oriau a ganiateir ar Nos Galan hyd ddechrau'r oriau a ganiateir ar Ddydd Calan.

Awr ychwanegol i'r amseroedd safonol ac ansafonol ar y diwrnod pan fydd Amser Haf Prydeinig yn cychwyn.

Yr oriau agor presennol wedi'u pennu ar y drwydded mangre:

Dydd Llun i Ddydd Sul: 0545 to 0230  
Yn ymgorffori:  
Siop Pysgod a Sglodion a Papa John's;  
Dydd Llun i Ddydd Sul: 0545 - 0300

Amseroedd Ansafonol ar gyfer Oriau Agor:

Nos Galan o ddiwedd yr oriau a ganiateir ar Nos Galan hyd ddechrau'r oriau a ganiateir ar Ddydd Calan.

Awr ychwanegol i'r amseroedd safonol ac ansafonol ar y diwrnod pan fydd Amser Haf Prydeinig yn cychwyn.

Dyweddodd Rheolwr y Tîm – Trwyddedu fod copi o'r drwydded mangre bresennol wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad.

Mae copi o'r cynllun presennol sydd ynghlwm â'r drwydded mangre wedi'i atodi yn Atodiad B.

Mae'r awdurdod trwyddedu wedi derbyn cais i amrywio'r drwydded mangre. Mae'r cais wedi'i atodi yn Atodiad C.

Atodwyd copi o'r cynllun sydd ynghlwm â'r cais yn Atodiad D.

Roedd telerau'r cais fel y'i cyflwynwyd fel a ganlyn:

Darparu Adloniant a Reoleiddir:

Ymestyn cerddoriaeth fyw ac wedi'i recordio, yn yr awyr agored Ddydd Llun i Ddydd Sul 1000 i 0200 y bore canlynol (ar hyn o bryd 2300 yn yr awyr agored)

Ymestyn oriau agor i Ddydd Llun i Ddydd Sul 24 awr y diwrnod;

Diwygio /dileu neu ddiweddar amodau yn sgil y newidiadau y gofynnwyd amdanynt yn y cynlluniau cynllun sydd wedi'u nodi ym Mlwch Adran 15 y ffurflen gais

Cymeradwyo newidiadau y tu mewn a thu allan i'r fangre o fewn yr ardaloedd trwyddedig presennol fel y dangosir yn y cynlluniau cynllun a gyflwynwyd i'r Awdurdod Trwyddedu gyda'r cais hwn, y newidiadau i gynnwys y canlynol:-

Newidiadau i'r cynllun mewnol o fewn adeilad Funtasia a Burger King;

Cael gwared â'r clwb nos "Time Out" a rhoi Bwyty Indiaidd yn ei le;

Mân newidiadau mewnol i'r man cyfarfod "Coast".

Allanol – yn yr ardal a amlinellwyd mewn gwyrdd sydd eisoes wedi'i chwmpasu gan y Drwydded Mangre.

Ychwanegu dau far awyr agored newydd o fewn yr ardal awyr agored drwyddedig bresennol – Bar Traeth a Bar / Coffi

Ad-drefnu'r ardal eistedd awyr agored o dan y Canopi / Pafiliwn.

Fel rhan o wybodaeth bellach, mae'r drwydded mangre ar hyn o bryd yn awdurdodi gwerthu alcohol ar y safle ac oddi ar y safle.

Eglurodd hi ymhellach fod rhaid i'r awdurdod trwyddedu, wrth gyflawni ei swyddogaethau, hyrwyddo'r amcanion trwyddedu:

- Atal troseidd ac anhrefn;
- Diogelwch y cyhoedd;
- Atal niwsans cyhoeddus; ac,
- Amddiffyn plant rhag niwed.

Mae pob un o'r amcanion uchod yr un mor bwysig â'i gilydd, ychwanegodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu.

Roedd y cais wedi'i hysbysebu yn unol â'r rheoliadau ar y safle, mewn papur newydd ac ar wefan y Cyngor. Roedd y cais hefyd wedi ei gyflwyno i'r Awdurdodau Cyfrifol.

Mae'r awdurdod trwyddedu wedi derbyn sylwadau gan Gydwasaethau Rheoleiddio yn ei rôl fel Awdurdod Cyfrifol (swyddogaethau iechyd yr amgylchedd) a phersonau eraill fel y'u diffinnir yn y ddeddfwriaeth. Roedd yr holl sylwadau a dderbyniwyd wedi'u hatodi yn Atodiad E yr adroddiad. At ddibenion gwybodaeth yn unig, atodwyd cynllun lleoliad yn Atodiad F.

Adeg paratoi'r adroddiad hwn nid oedd yr un o'r sylwadau wedi'u tynnu'n ôl ac felly mae angen gwrandawiad o'r cais hwn.

Rhoddodd gweddill adrannau'r adroddiad, ac atodiadau pellach, wybodaeth am ganllawiau statudol, ac ati.

Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu fod dogfennau pellach wedi'u hanfon gan yr ymgeisydd ers i'r wŷs ar gyfer y cyfarfod gael ei dosbarthu, sef:

- Cynllun/ffotograff o'r cynigion;
- Adroddiad Inacoustic (dyddiedig 11/2/2022);
- Cynllun Rheoli Sŵn;
- Rhai Amodau arfaethedig (diwygiedig) sydd i'w hatodi i'r Drwydded

Ar y pwyt hwn yn y trafodaethau, gofynnodd y Cadeirydd wedyn i gynrychiolwyr yr ymgeisydd amlinellu'r cais.

Cynghorwyd yr Aelodau gan Mr. Smith, Cyfreithiwr o Popplestone Allen, bod nifer o faterion a rhesymau pam y dymunai ei gleient wneud cais am amrywiad i'r Drwydded Mangre ym Mharc Hamdden Bae Trecco, Porthcawl, h.y. am chwarae cerddoriaeth fyw ac wedi'i recordio hyd at 02:00am a chyfeiriodd yr Aelodau at y cynlluniau cysylltiedig wedi'u cynnwys gyda'r cais er mwyn egluro hyn.

Cynghorodd fod ardal ganolog y fangre dan sylw yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin rhwng dau adeilad a chan ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud ar y safle, roedd llwyfan a rhodfa wedi'u lleoli a oedd yn cysylltu'r ddau.

Pe na bai cais wedi'i wneud i agor yr ardal hon am 24 awr, cynghorodd Mr. Smith y byddai'n rhaid i westeion gerdded o amgylch y cyfadeilad i gael mynediad.

Sicraodd yr Is-Bwyllgor y byddai gwerthu alcohol yn y fangre tan 23:00 y tu allan i'r adeilad a than 02:00 y tu mewn. Byddai'r agor am 24 awr ddim ond yn berthnasol i'r mynediad rhwng yr adeiladau ar gyfer mynchwyr.

Cynghorodd fod ail ran y cais er mwyn cynnal addasiadau i wahanol adeiladau wedi'u lleoli yn ardal y parc, sef ar gyfer bwytau ac i'r Paflawn ei hun. Byddai hyn yn cynnwys darparu dau far, ynghyd ag ardaloedd eistedd allanol. Byddai cerddoriaeth yn cael ei chwarae ond dim ond tan 23:00.

Roedd trydedd nodwedd y cais yn ymwneud â diwygio rhai o Amodau'r Drwydded. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r rhan hon o'r cais. Wedyn, er budd yr Aelodau, rhoddodd grynodeb o'r rhain. Roedd esboniad llawn o'r rhain yn un o'r dogfennau hwyr a ddosbarthwyd i bawb.

Cadarnhaodd Mr. Smith, o dan delerau presennol y Drwydded Adloniant Cyhoeddus, fod eisoes y gallu i ddarparu adloniant awyr agored rhwng 10:00 ac 23:00, gyda'r awgrymiad i newid hyn, h.y. rhwng 10:00 a 02:00 (saith diwrnod yr wythnos). Fodd bynnag, yng ngoleuni'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd i'r newid hyn i'r oriau, roedd yr ymgeisydd wedi bod mewn ymgynghoriad â'r Cydwlasanaethau Rheoleiddio ac wedi gwneud rhai addasiadau i'r Amodau hyn, a dosbarthwyd y rheini i bawb neithiwr gyda'r papurau cysylltiedig eraill y cyfeiriwyd atynt uchod.

Cyfeiriodd wedyn at y Cynllun Rheoli Sŵn a ddyfeisiwyd, ac eto a rhannwyd gyda phawb yn un o'r dogfennau hwyr, ac esboniodd sut y byddai unrhyw niwsans sŵn yn cael ei liniaru, h.y. pan fyddai cerddoriaeth fyw ac wedi'i recordio yn cael ei chwarae yn y fangre fel rhan o ddigwyddiadau arfaethedig yn y dyfodol. Ychwanegodd ei fod yn ymwybodol fod digwyddiad a gynhaliwyd yn y fangre y llynedd ar 28 Gorffennaf wedi arwain at nifer o alwadau yn cwyno am lefelau'r sŵn yn sgil hyn a phan dderbyniwyd y rhain, cafodd y gerddoriaeth ei throi lawr ar unwaith.

Cynghorodd Mr. Smith fod ei gleientiaid, yn sgil y pandemig, wedi dibynnu'n fwy ar ddigwyddiadau awyr agored. Roedd y gŵyn ddiwethaf a dderbyniwyd, heblaw am yr un ym mis Gorffennaf diwethaf, wedi bod yn 2018 – oherwydd sŵn. Yn dilyn y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â'r digwyddiad ym mis Gorffennaf, daeth y digwyddiad, a oedd i fod i orffen am 23:00, i ben yn gynnar am 22:30. Ychwanegodd fod digwyddiad mis Gorffennaf y llynedd, yn cael ei gynnal dan do eleni, yn hytrach nag yn yr awyr agored lle cafodd ei gynnal y llynedd. Byddai'r holl gerddoriaeth ac ati a fyddai'n cael ei chwarae mewn unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol yn cael eu monitro bob awr a byddai'r lefelau hyn yn cael eu cytuno gyda'r Cydwasanaethau Rheoleiddio. Byddent yn cydymffurfio â lefelau na fyddai'n ymyrryd na bod yn niwsans i'r cartrefi agosaf lle mae pobl yn byw a byddai'r lefelau'n cael eu lliniaru gan gyfyngwyr sŵn wedi'u gosod dan y Cod Ymarfer perthnasol. Ni fyddai unrhyw ddigwyddiadau a fyddai'n cynnwys cerddoriaeth neu adloniant yn glywadwy yn ardal awyr agored y fangre ar ôl 23:00.

Mewn ymateb i gwestiwn gan wrthwynaubydd, cadarnhaodd Mr. Smith y byddai'r un egwyddor yn berthnasol, pe bai unrhyw gwynion am niwsans sŵn ac ati, yn dod oddi wrth unrhyw breswylwyr y carafannau sydd wedi eu lleoli yn y Parc. Ychwanegodd na fyddai o fudd yr ymgeisydd i achosi niwsans i unrhyw breswylwyr ar y safle.

O ran cwestiynau a dderbyniwyd ynghylch effeithiolrwydd y Cyfyngydd Sŵn, cynghorodd yr ymgeisydd ei fod yn cael ei osod yn y fath fodd, pe bai lefelau sŵn yn uwch na'r terfyn a osodwyd gan y Cyfyngydd, yn mynd yn uwch nag uchafswm y lefelau, y byddai'n torri'r pŵer i'r llwyfan ac/neu yn peidio â chaniatáu i'r terfynau hyn fod yn uwch na 75 Db ar ôl 23:00. Byddai monitro hefyd o'r lefelau sŵn mewn mannau yn agos i'r cartrefi agosaf yn ystod y noswaith pan fyddai adloniant cyhoeddus yn cael ei gynnal yn y fangre.

Ailgynullwyd y cyfarfod am 11.55yh yn dilyn seibiad byr.

Gofynnodd Cwnsler yr Is-Bwyllgor, wrth glywed gwrthwynaebiadau gan breswylwyr i'r cais am amrywio'r drwydded, am osgoi dyblygu, lle bo modd.

Gofynnodd Mr Simon Judd am eglurhad na fyddai lefel y sŵn cyn 11.00yh yn uwch nag ar ôl 11.00yh. Dywedodd cynrychiolydd yr ymgeisydd wrth yr Is-Bwyllgor fod terfynau sŵn wedi'u cynnwys o fewn yr adroddiad asesu sŵn, ond cadarnhaodd fod y cais yn ymwneud ag ar ôl 11.00yh ac nid cyn 11.00yh. Cyn 11.00yh, roedd lefel y sŵn wedi'i gosod yn 79dba. Gofynnodd Mr Judd ai 75dba oedd y terfyn sŵn cyn 11.00yh. Eglurodd cynrychiolydd yr ymgeisydd mai dyma fyddai'r terfyn sŵn ar ôl 11.00yh, gyda lefel y sŵn cyn 11.00yh wedi'i gosod yn 79dba fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad. Gofynnodd Mr Judd os oedd lefel y sŵn yn rhy uchel i'r preswylwyr, a fyddai'n cael ei hasesu gan y Cyngor. Dywedodd cynrychiolydd yr ymgeisydd wrth yr Is-Bwyllgor, pan fydd y system yn cael ei chomisiynu y byddai'r ymgeisydd yn eistedd i lawr gyda'r Cydwasanaethau Rheoleiddio i edrych ar y lefelau sain yn ystod y dydd. Dywedodd fod gan yr ymgeisydd drwydded eisoes i chwarae cerddoriaeth tan 11.00yh a bod y cais hwn ar gyfer y tu hwnt i 11.00yh. Gofynnodd Mr Judd a yw'r cais presennol yn caniatáu chwarae cerddoriaeth y tu mewn neu'r tu allan. Dywedodd cynrychiolydd yr ymgeisydd fod y cais presennol yn caniatáu chwarae cerddoriaeth y tu mewn tan 02.00yb a thu allan tan 11.00yh. Gofynnodd Mr Judd pa lefelau sy'n cael eu gosod ar hyn o bryd. Dywedodd cynrychiolydd yr ymgeisydd nad oedd unrhyw gyfyngwyr sŵn ar waith ar hyn o bryd.

Dyweddodd Mr Judd fod Parkdean wedi gwneud y penderfyniad i gau ei glwb nos a rhoi bwty Indiaidd yn ei le, a thrwy hynny golli gofod adloniant dan do, nid oedd gan y preswylwyr broblem gyda hyn gan fod sŵn yn cael ei reoli, ond yr hyn a oedd yn destun

pryder i'r preswylwyr oedd bod cais yn cael ei wneud wrth edrych yn ôl am estyniad y tu allan o ganlyniad i golli'r gofod adloniant dan do. Mynegodd Mr Judd bryder y byddai'r preswylwyr yn dwyn baich y sŵn, pan oedd gan Parkdean gynt y lle ar gyfer adloniant cyn adeiladu'r pafiliwn. Pwysleisiodd cynrychiolydd yr ymgeisydd fod y cais sy'n cael ei wneud yn ymwneud â mesurau diogelu sy'n gynwysedig ac wedi'u cytuno gan Gydwasaethau Rheoleiddio i gyfyngu ar y gerddoriaeth y tu hwnt i 11:00yh yn yr ardal ychwanegol honno. Dywedodd cynrychiolydd yr ymgeisydd na fydd y preswylwyr yn dioddef yn sgil y cais.

Cwestiynodd Mr Judd yr angen i Parkdean gael parti y tu allan tan 1.00yb. Cyfeiriodd hefyd at osod lefel y dba yn 75dba yn dilyn profion a chwestiynodd a yw'n caniatáu am lefelau lleisiau a beth fyddai Parkdean yn ei wneud os yw pobl sy'n mynchy'u'r digwyddiad yn ymuno gyda'r canu, yn enwedig os oedd band yn chwarae cerddoriaeth roc swnllyd. Dywedodd cynrychiolydd yr ymgeisydd nad oedd modd rheoli'r sŵn a wnaed gan gwsmeriaid, fodd bynnag byddai adloniant ysgafnach yn cael ei chwarae yn ddiweddarach yn y nos i ddirwyn i ben ac y byddai'n gymesur ag amser y dydd. Gofynnodd Mr Judd a fyddai anthem fyddarol yn cael ei chwarae'n hwyr y nos ar benwythnos Elvis. Cyfeiriodd at ddigwyddiad a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2021, pan oedd diwedd y set yn fwy swnllyd na'r brif set a chafwyd crescendo o sŵn a gofynnodd pa warantau y byddai Parkdean yn eu rhoi ar waith i sicrhau na fyddai'r math hwnnw o adloniant yn digwydd yn hwyr yn y nos. Ymddiheurodd cynrychiolydd yr ymgeisydd ar ran ei gleientiaid lle'r oedd y gerddoriaeth a chwaraewyd yn ardal y sgwâr yn rhy uchel. Daeth y digwyddiad i ben rhwng 10.20yh a 10.30yh ac nid oedd y gerddoriaeth yn mynd trwy gyfyngydd sŵn. Derbyniodd Mr Judd yr ymddiheuriad a wnaed ond mynegodd bryder pe bai diweddglo byddarol, pa gamau fyddai'n cael eu cymryd i ddiogelu lefelau sŵn ar ôl 11.00yh, a fyddai'n cynnwys sŵn y dorf, ac atal y sŵn rhag effeithio ar breswylwyr. Dywedodd cynrychiolydd yr ymgeisydd y byddai dewis o ganeuon i sicrhau dirwyn yr adloniant a'r gynulleidfa i ben yn hytrach na chwarae rhyw gân fawr am 1.00yb i atal y dorf rhag cyd-ganu. Byddai hynny'n rhan o gyfrifoldeb rheoli torf Parkdean gan nad oedd modd gosod cyfyngydd sŵn ar y gynulleidfa. Dywedodd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw gwynion eraill am unrhyw un o'r penwythnosau arbenigol a gynhaliwyd. Dywedodd Mr Judd fod pob digwyddiad arall wedi cael eu cynnal dan do, a oedd bellach yn fwyty Indiaidd a fyddai hynny wedi bod yn hunangynhwysol. Gofynnodd a fyddai'r post gwrando yn synhwyro'r sŵn. Hysbysodd cynrychiolydd yr ymgeisydd yr Is-Bwyllgor y byddai'n rhaid iddo wirio gyda'r adran acwsteg os yw gwiriadau sŵn yn cael eu gwneud yn y gofodau adloniant eraill dan do ar y safle. Gofynnodd Mr Judd os oedd perfformiad byddarol o gân a fyddai'r offer monitro yn synhwyro bod y sŵn wedi mynd yn uwch na 75 dba ac felly yn ei atal. Dywedodd yr ymgynghorydd acwsteg y byddai'r offer monitro yn cael ei osod ar gyfer cerddoriaeth yn unig. Fodd bynnag, deallai fod Parkdean yn cynnal gwiriadau a monitro sŵn yn ystod y digwyddiadau a bydd hynny'n cael ei gofnodi gan y mesuryddion lefel sain yn ystod y digwyddiadau go iawn. Deallai Mr Judd y bydd yr offer yn synhwyro caniad uchel o gân a gofynnodd a fyddai'r system yn gostwng y gerddoriaeth o 75dba i 65dba i dawelu'r dorf neu a fyddai'n aros ar yr un lefel. Hysbysodd cynrychiolydd yr ymgeisydd yr Is-Bwyllgor y byddai'r modd o reoli'r dorf yn cael ei newid o ganlyniad i'r monitro sŵn a wnaed. Gofynnodd Mr Judd a allai Parkdean roi rhywbeth at ei gilydd i roi rhywfaint o sicrwydd i breswylwyr neu a fyddai modd dod â digwyddiad i ben os oedd y sŵn yn ormodol. Gofynnodd cynrychiolydd yr ymgeisydd a oedd Mr Judd yn golygu y byddai Parkdean yn dod ag ef i ben neu fel arall y byddai'n cael adolygiad o'r drwydded mangre. Dywedodd Mr Judd ei fod yn golygu dod ag ef i ben yn gyfan gwbl ac y byddai'r preswylwyr yn rhoi gwybod i Parkdean yn gyflym os oedd y lefelau sŵn yn uchel.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r gwrthwynebwyr gyflwyno eu hachos.

Dyweddodd y Cyngphonydd Jonathan Pratt fod ei wrthwynebiad i'r cais yn seiliedig ar aneglurder y cais gwreiddiol a bod Parkdean eu hunain wedi ymddwyn yn briodol. Roedd wedi derbyn amryw o bryderon gan breswylwyr yn rhinwedd ei swydd fel Cyngphonydd Tref am yr hyn yr oedd Parkdean wedi'i wneud mewn modd didrwydded gyda cherddoriaeth yn cael ei chwarae tan 2.00yb. Roedd yn falch o nodi y byddai trwydded ehangach ac y bydd digwyddiadau'n cael eu cynnwys o fewn eu cylch gwaith. Mynegodd bryder y byddai digwyddiadau'n mynd yn eu blaen tan 1.00yb ond roedd yn falch o weld bod preswylwyr wedi cael eu clywed a bod yr oriau wedi'u cwtogi. Roedd hefyd yn falch bod gweithdrefnau lleihau sŵn ar waith i reoli sŵn. Gofynnodd am sicrwydd na fyddai'r un preswylydd yn gallu clywed cerddoriaeth. Os oedd pryderon yngylch lefelau sŵn, gofynnodd fod rhifau cyswllt Parkdean yn cael eu pasio ymlaen i Gyngor Tref Porthcawl yn ogystal ag i Gydwasaanaethau Rheoleiddio a Thrwyddedu, gan fod cynrychiolaeth ar y ddwy lefel o lywodraeth leol ar lefel Bwrdeistref Sirol ac ar lefel Cyngor Tref. Os derbynir cwyn gan Gynghonydd Bwrdeistref Sirol neu gan Gynghonydd Tref, mae ganddynt y gallu i basio'r cwynion hynny ymlaen i'r awdurdodau lleol perthnasol ac i Parkdean. Roedd yn falch o weld bod y cais wedi'i ddiwygio gyda gostyngiad yn yr oriau y gofynnwyd amdanynt. Dywedodd bod y maes carafanau ym Mae Trecco Bay yn beth da i Borthcawl, sy'n dod â swyddi i'r dref a bod Parkdean wedi cael hanes o fod yn gymdogion da a'i fod yn gobeithio y byddai'r berthynas honno'n parhau. Gobeithiai bod yr holl reolaethau perthnasol yno ac na fyddai hyn yn gam ar y ffordd i ymestyn trwyddedau.

Dyweddodd cynrychiolydd yr ymgeisydd ar ôl cymryd cyfarwyddyd pellach ei fod yn fwy na pharod i roi manylion cyswllt i'r Cyngor Tref.

Clywodd yr Is-Bwyllgor wrthwynebiad gan Mr Ken Bonham a fu'n breswylydd am dros 40 mlynedd ac a oedd wedi bod yn berchen ar fusnesau yn y dref. Dywedodd bod y prifwynt yn dod o'r de-orllewin a bod sŵn o'r maes carafanau yn diweddu lan yng ngerddi'r tai yn Drenewydd a thu mewn i'r tai pan fydd y ffenestri ar agor. Dywedodd hefyd bod sŵn o'r maes carafanau wedi cael ei gymharol reoli ers blynyddoedd lawer, er y bu achosion pan yr oedd y broblem yn ormodol fel y cyfeiriwyd ato'n gynharach. Cyfeiriodd at raglen deledu a ddarllledwyd yn y 1960s bu'n sôn am yr effaith negyddol yr oedd y maes carafanau wedi'i chael ar dref Porthcawl, gan ddod â throsedd difrifol yn ei sgil. Dywedodd bod hynny wedi digwydd oherwydd gormod o alcohol a byddai caniatáu man cyfarfod arall yn gweld cynnydd mewn yfed alcohol.

Cynghorodd Cwnsler yr Is-Bwyllgor mai cais i amrywio'r drwydded oedd hwn. Gall yr Is-Bwyllgor ddim ond delio gyda newid amodau, newid cynllun mewnol ac ychwanegu adloniant a reoleiddir. Nid adolygiad o'r drwydded na cheisio ymestyn y drwydded mo hyn. Dywedodd y byddai'n cynghori'r Is-Bwyllgor na allai ystyried sylwadau am gynnydd yn y cyflenwad alcohol gan nad oedd y cais hwn yn delio â chynnydd yn y cyflenwad alcohol. Gofynnodd am gyfyngu'r cyflwyniadau i'r hyn sy'n digwydd mewn perthynas â'r cais.

Dyweddodd Mr Bonham fod lefelau sŵn yn codi wrth i'r adloniant fynd yn ei blaen er mwyn bodloni'r dorf, gyda pherfformwyr yn dechrau'n araf deg ac wedyn yn cyflymu ac felly byddai diffyg rheolaeth dros y sŵn a grëwyd gan y dorf. Awgrymodd nad oedd modd gwarantu rheoli'r dorf na'r sŵn a grëwyd gan y dorf, a theimlai y dylai'r cais hwn gael ei wrthod yn gyfan gwbl.

Rhoddwyd cyfle i Mr Jonathan David gyflwyno ei wrthwynebiadau i'r Is-Bwyllgor. Hysbysodd Mr David yr Is-Bwyllgor fod ei wrthwynebiadau i'r cais fel y nodwyd yn ysgrifenedig ac roedd yr ymgeisydd wedi'u gweld. Gofynnodd am eglurhad bod rhwng 24 a 26 diwrnod penodol bob blwyddyn ac y byddai lefelau sŵn ar hyd a lled y pafiliwn yn cael eu cyfyngu i 75dba ac nid dim ond yn cael eu cyfyngu i 75dba ar ôl 11.00yh. Eglurodd cynrychiolydd yr ymgeisydd fod yna wahanol lefelau sŵn ac mae codau

ymarfer gwahanol a weithredir sy'n llywodraethu pa mor uchel y dylai cerddoriaeth fod wrth bwyntiau agosaf sy'n sensitif i sŵn o fewn y Cod Ymarfer ar gyfer cyngherddau, felly maent yn defnyddio canllawiau sy'n golygu bod angen ei ostwng wrth i'r diwrnod fynd yn ei flan. Pwysleisiodd fod y cais am amrywio'r drwydded wedi'i gyfyngu i lefelau sŵn y tu hwnt i 11.00yh. Dywedodd Mr David fod ei bryder mawr yn ymwneud â'r cyngerdd a gynhalwyd ar 28 Gorffennaf 2021 a bod y lefelau sŵn wedi bod yn ormodol yn gyson drwy gydol y dydd unwaith i'r cyngerdd ddechrau. Credai y dylai'r terfyn 75dba fod ar waith drwy gydol y dydd ac nid dim ond ar ôl 11.00yh.

Gwahoddwyd pob parti gan y Cadeirydd i grynhoi eu hachosion.

Dyweddodd y Cyngorydd Pratt mai cyfrifoldeb Park Gwyliau Bae Trecco oedd cael perthynas iach gyda'i breswylwyr, nid yn unig yn Dreneywdd ond ledled Porthcawl. Dywedodd hefyd ar wahân i'r llynedd, fod pawb yn dysgu o oblygiadau Covid, a bod Bae Trecco wedi cynnal y perthnasoedd hynny yn weddol dda dros flynyddoedd lawer eu hamser ym Mhorthcawl. Gofynnodd o ran yr ymgeisydd dan sylw bod unrhyw newidiadau yn ei geisiadau yn cael eu hystyried mewn ysbryd o ffydd dda a'i fod yn parhau gyda'r berthynas dda sydd ganddo â'r preswylwyr.

Yn ei gyflwyniad terfynol, cyfeiriodd cynrychiolydd yr ymgeisydd at y troseddu difrifol a ddaethpwyd i sylw yr Is-Bwyllgor yng ngwrthwynebiad Mr Bonham a dywedodd mai blynnyddoedd maith yn ôl oedd hyn. Roedd yn ddiochgar i'r Cyngorydd Pratt am roi mwy o gyd-destun ar berthynas Parkdean gyda'r preswylwyr a bod y sylw yn cyfeirio at y ffaith bod y Cyngor Tref wedi mwynhau perthynas dda gyda Bae Trecco a bod yr ymgeisydd yn byw yn heddychlon ac mewn harmoni â'r preswylwyr lleol. Dywedodd nad oedd o fudd i Parkdean achosi aflenyddwch a'i fod am fod yn gymdogion da ac roedd wedi digio gyda'r gwrthwynebiad a ddywedodd nad oedd Parkdean yn cael unrhyw effaith dda. Roedd o'r farn fod y Parc Gwyliau yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol a bod ganddo berthynas waith dda yn y gorffennol. Ymddiheurodd am y digwyddiad ym mis Gorffennaf 2021 oherwydd ni ddefnyddiwyd cyfyngydd sŵn a chynhalwyd y digwyddiad ar y sgwâr yn y Parc Gwyliau, er nad oedd dim byd anghyfreithlon am y peth, roedd y gerddoriaeth yn rhy uchel.

Hysbysodd cynrychiolydd yr ymgeisydd yr Is-Bwyllgor nad cais i ymestyn yr oriau i gyflenwi alcohol mo hwn, er efallai caiff cais ei wneud maes o law ar gyfer Tiki Bar y pafilewn ond nid oedd hynny'n cael ei wneud heddiw. Dywedodd y byddai'r cais yn caniatáu i bobl ddefnyddio'r corridor rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin er mwyn iddynt allu cerdded drwodd heb orfol mynd o gwmpas. Cyfeiriodd at baragraff 5.16 y polisi lle gall y Cyngor nodi sawl digwyddiad sydd i'w cynnal bob blwyddyn. Dywedodd pe byddai'r ymgeisydd yn gwneud cais am gerddoriaeth ar adegau sy'n fwy sensitif i sŵn, mae'r polisi yn cynnwys amddiffyniad allweddol ym mharagraff 12.

Hysbysodd yr Is-Bwyllgor hefyd fod proses adolygu yn rhan annatod o Ddeddf Trwyddedu 2003 na fyddai ei gleient am ei pheryglu. Drwy hyn, gallai fod adolygiad o'r drwydded i ddiddymu unrhyw ganiatâd am adloniant a gallai fod hyd yn oed yn waeth na hynny, adolygu'r drwydded yn ei chyfarwydd i gynnwys adolygu gwerthu alcohol ac ati. Roedd yna hefyd bob math o fecanwaith, gyda phwerau yn Neddff Sŵn 1996 lle mae modd cyflwyno rhybuddion ac yna gellir cyflwyno dirwyon os ydynt yn cael eu torri. Gellir atafaelu a chymryd offer i ffwrdd gan Gydwasaethau Rheoleiddio. Mae diogelu hefyd yn Neddff Diogelu'r Amgylchedd pe byddai'r ymgeisydd yn creu niwsans sŵn, wedyn byddai cyflwyno hysbysiad lleihau sŵn. Hysbysodd yr Is-Bwyllgor fod digon o ffyrrd y gellir dwyn ei gleient i gyfrif, ond nid oedd am gyrraedd y pwynt hwnnw. Roedd hyn yn ymwneud ag atal niwsans cyhoeddus a pheidio â'i achosi yn y lle cyntaf. Gofynnodd i'r Cwnsler gyfeirio'r Is-Bwyllgor at baragraffau 9.12. Daeth hefyd â pharagraff 9.15 y canllawiau at sylw'r Is-Bwyllgor, sy'n ymwneud â throsedd ac anrhefn a chyfeiriodd hefyd at y ffaith na chafwyd unrhyw sylwadau i'r cais gan yr heddlu, sef prif

ffynhonnell cyngor ar faterion sy'n ymwneud â hyrwyddo amcanion mewn perthynas â throseddu ac anrhefn.

Yn fwy penodol, gofynnodd cynrychiolydd yr ymgeisydd i'r Is-Bwylgor edrych ar baragraff 9.15 a oedd yn nodi, fel awdurdod trwyddedu, y gall yn rhesymol ddisgwyl i'r awdurdod ymyrryd, gan arfer swyddogaethau iechyd yr amgylchedd i wneud sylwadau lle mae ganddynt bryderon ynghylch niwsans sŵn. Dywedodd mai dyna'n union a wnaeth Cydwasaethau Rheoleiddio, gwnaethon nhw ystyried y cais, gwneud sylwadau a chynhaliwyd deialog gyda nhw i drafod amodau, a gwnaethon nhw weld ac ystyried y cynllun rheoli sŵn a thynnu'n ôl eu sylwadau. Hysbysodd cynrychiolydd yr ymgeisydd yr Is-Bwylgor y bydd y cyfyngyd sŵn yn cael ei gomisiynu a'i gytuno gyda Chydwasanaethau Rheoleiddio.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr ymgeisydd at achos Cyngor Dinas Manceinion v Taylor, a'r ffaith nad yw'r Is-Bwylgor yma i adolygu'r drwydded bresennol. Cais ydw i amrywio'r drwydded i caniatáu adloniant rhwng 11.00yh a 2:00yb. Dywedodd nad yw'r Is-Bwylgor yma i adolygu'r hyn mae ei gleient yn ei wneud cyn 11.00pm. Roedd yn cydnabod na wnaeth ei gleient waith gwych ohoni ar 28 Gorffennaf 2021. Dywedodd nad adolygiad o'r drwydded mo hyn, ond caniatáu amrywio'r drwydded a gosod unrhyw amodau sy'n briodol a chymesur. Bu trafod manwl o'r amodau hynny ac awgrymodd wrth bwys o mesur y tebygolwydd gerbron yr Is-Bwylgor a'r ffaith nad oedd Cydwasaethau Rheoleiddio yn gwrthwynebu, y byddent yn gweithio gyda Parkdean ar gyfyngu'r sŵn.

Hysbysodd cynrychiolydd yr ymgeisydd yr Is-Bwylgor er mwyn sicrhau na fyddai sŵn yn glywadwy yn y tai agosaf mwyaf sensitif i sŵn ar ôl 11.00yh gyda'r ffenestr ar agor ac ar sail hynny, o'r hyn a oedd yn hysbys, ni fydd unrhyw niwsans cyhoeddus yn cael ei achosi i gartrefi o ran sŵn y dorf. Byddai gwiriadau sŵn yn cael eu gwneud yn y man hwnnw ac mewn mannau eraill a bydd cynllun rheoli digwyddiadau sydd â thorff ar waith. Dywedodd y byddai llawer mwy o sicrwydd o ran yr oriau a'r dyddiau y gwneir cais amdanynt. Dywedodd na fyddai neb yn gwneud perfformiad o gân fyddarol am 1.00yb ac y byddai'r adloniant a rheoli'r dorf yn dirwyn i ben. Cymeradwyodd y cais fel y'i diwygiwyd i'r Is-Bwylgor. Dywedodd ei fod wedi ei ddiwygio a'i fod yn rhoi rhyddid i'w gleientiaid gael digwyddiadau heb hysbysu, ond roedd yn gwerthfawrogi'r hyn y mae polisi'r Cyngor yn ei ddweud.

Diolchodd yr Is-Bwylgor am y cyfle i gyflwyno'r cais.

Ymneilltuodd yr Is-Bwylgor er mwyn ystyried y cais ac ar ôl iddynt ddychwelyd, fe'i:

**BENDERFYNWYD:** Mae'r Is-bwylgor wedi penderfynu caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i newidiad i'r amodau sydd ar y drwydded fel y nodir yn yr atodiad i'r Penderfyniad hwn (y newidiadau wedi'u hamlygu at ddibenion eglurder).

### **Rhesymau**

Mae culhau'r cais i gyfyngu darparu adloniant a reoleiddir allanol i ardal ddiffiniedig gyda 6 digwyddiad y flwyddyn galendr (ynghyd â Nos Galan) Eve) gydag oriau gorffen cynharach, yn ein barn ni, yn newid drastig o'r hyn y gwnaed cais amdano yn wreiddiol. O'i gyfuno â rhybudd o ddigwyddiadau ymlaen llaw, mae'n ddull sy'n alinio i baragraff 5.16 datganiad y Cyngor o bolisi trwyddedu.

Mae'r Ymgeisydd ymhellach wedi darparu mesurau rheoli a lliniaru sŵn.

Mae'r cynllun rheoli sŵn, a fydd drwy gyfrwng yr amod a gynhigiwyd gan yr Ymgeisydd

yn cael ei weithredu yn y fangre gyfan, yn darparu ym mharagraff 3.11 ar gyfer y mesurau rheoli sŵn canlynol yn y Pafiliwn:

*Mae'r Pafiliwn yn strwythur gorchuddiedig tynnol wedi'i leoli rhwng dau adeilad. Bydd dau ben y strwythur wedi'u cau gan baneli mewnlenwad rhwyllog ffabrig a gwydro lefel is a drysau mynediad dwbl. Bydd hyn yn cwtogi ymhellach ar y sŵn sy'n dianc o'r ardal.*

*Mae'r system sain o fewn y Pafiliwn yn system Bose Room Match sy'n cynnwys 24 is-seinydd bach i greu "system wasgaru" a gynlluniwyd. Rheolir y seinyddion mewn 12 grŵp sy'n caniatáu rheoli a monitro gweithredol.*

*Mae manteision y system dros system draddodiadol yn golygu, trwy gael cymaint o seinyddion y gall greu gwasgariad cyfartal o'r sŵn, fel y gellir rheoli a defnyddio'r lefel sain gyffredinol yn fwy manwl gywir. (System draddodiadol e.e 2 seinydd y naill ochr i lwyfan lle mae'n rhaid defnyddio lefel sain fawr i gyrraedd gofod cyfan)*

*Mae gan y system sain brif brosesydd gan Soundweb sy'n gynnyrch London Blue. Ffurfweddir y system gan gyfrifiadur personol/gliniadur ac fe'i gweithredir o dan gyfrinair [gweinyddwr]. Cofnodir pob cofnod rheoli i ddarparu proses archwilio defnyddwyr y system. Mae'n caniatáu ei gweithredu heb ymyrryd i atal y lefelau sain rhag cael eu haddasu'n lleol. Ni ellir addasu'r system heb y cyfrifiadur personol/gliniadur ac ategyn y gweinyddwr.*

*Mae'r system yn gyfyngyd sŵn a gellir ei ffurfwedu'n awtomatig i leihau lefelau dB ar amseroedd a bennir ymlaen llaw e.e. 1900 (pontio o'r dydd i'r noswaith) ac am 2300 (pontio o'r noswaith i'r nos).*

*Gall y system gofnodi mesuriadau monitro lefel sŵn awtomatig a'u dogfennu. Bydd cofnodion yn cael eu cadw am 12 mis a byddant ar gael pe bai cais amdanynt.*

Mae gofyniad allweddol ffurfweddiad y cyfyngyd sŵn a'r ddogfennaeth monitro yn ddarostyngedig i amod pellach a gynhigiwyd. Mae Paragraff 3.3 y cynllun rheoli sŵn amodol yn darparu'n hanfodol ymhellach:

*Bydd gweithrediadau o fewn y Pafiliwn yn unol â'r Adroddiad Asesu Sŵn a gynhyrchwyd gan Inacoustic dyddiedig 11 Mawrth 2022 neu, ar lefel a bennwyd a chytunwyd ar y cyd â Chydwasanaethau Rheoleiddio ar osod y cyfyngyd sŵn.*

*Bydd monitro sŵn awtomataidd yn digwydd ar ôl 2300 (wrth y cyfyngyd sŵn), yn ystod unrhyw gyfnodau o adloniant a reoleiddir byw ac wedi'i recordio yn y Showdome ac yn ardal awyr agored y Pafiliwn.*

*Bydd monitro sŵn ychwanegol ar ffurf mesurydd sŵn llaw yn digwydd bob awr ym mannau P1 a P2 ar y cynllun a atodwyd, pan ddefnyddir y Pafiliwn ar gyfer adloniant a reoleiddir ar ffurf cerddoriaeth fyw neu wedi'i recordio ar ôl 2300.*

*Bydd mesuriadau lefelau sŵn yn cael eu dogfennu a bydd y cofnodion yn cael eu cadw am gyfnod o 12 mis*

Mae Paragraff 9.12 y canllawiau yn darparu y bydd "pob awdurdod cyfrifol yn arbenigwr yn eu priod faes, ac mewn rhai achosion mae'n debygol mai awdurdod cyfrifol penodol fydd prif ffynhonnell cyngor yr awdurdod trwyddedu mewn perthynas ag amcan trwyddedu penodol".

